# Y CYNGOR 14/07/11

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd John Gwilym Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd R Leonard Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Stephen Churchman, Endaf Cooke, Anwen Davies, E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Alun Wyn Evans, Jean Forsyth, Keith Greenly-Jones, Gwen Griffith, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllïan, Christopher Hughes, Louise Hughes, Sylvia Humphreys, Aeron M Jones, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles Wyn Jones, Dyfrig Wynn Jones, Eric Merfyn Jones, Evie Morgan Jones, John Wynn Jones, Penri Jones, P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, Dilwyn Lloyd, J Wynn Meredith, Llinos Merks, Dafydd Meurig, Linda Morgan, Dewi Owen, W Roy Owen, W Tudor Owen, Arwel Pierce, E Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Sion S. Roberts, Trevor Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Guto Rhys Tomos, Ann Williams, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams, Owain Williams ac R H Wyn Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilwyn O Williams, Dafydd Lewis ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Cyfeiriad Strategol), Dewi Jones (Pennaeth Addysg), Tony Bate (Swyddog Gwella Ansawdd Addysg), Gwenan Parry (Pennaeth Gofal Cwsmer), Dafydd Gibbard (Rheolwr Eiddo Corfforaethol), Gwen Carrington (Pennaeth Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol), Marian P. Hughes (Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Trevor Edwards, Simon Glyn, Huw P. Hughes, O.P. Huws, Linda W. Jones, Eryl Jones-Williams, June Marshall, Keith Marshall, Peter Read, Dafydd W. Roberts, Paul Thomas, Robert J. Wright.

## 1. GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd T.G. Ellis.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 12 Mai 2011 fel rhai cywir.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dosbarthwyd i'r aelodau, cyn y cyfarfod, nodyn briffio gan y Swyddog Monitro ynglŷn â'r eitem "Ad-drefnu Ysgolion Dalgylch y Gader, Dolgellau".

Eglurwyd y byddai angen i bawb oedd yn lywodraethwr ar ysgol a effeithir gan y cynigion, ddatgan eu buddiant ar gychwyn y cyfarfod, ond, dan y Cod Ymddygiad, roedd gan bob aelod, oedd yn cynrychioli'r Cyngor ar gorff llywodraethu ysgolion cynradd, hawl i gymryd rhan lawn yn y drafodaeth a phleidleisio.

O safbwynt aelodau oedd â pherthynas yn ddisgybl neu staff mewn ysgol yn y dalgylch, eglurwyd y byddai gan aelod fuddiant personol os oedd penderfyniad ar y mater yn debyg o effeithio lles neu sefyllfa ariannol person yr oedd ganddynt gysylltiad agos ag ef/hi. Byddai'r buddiant hwnnw'n rhwystro aelod rhag cymryd rhan yn y drafodaeth, os byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd gredu ei fod mor arwyddocaol fel y byddai'n rhagfarnu barn yr aelod.

Eglurwyd bod Pwyllgor Safonau'r Cyngor o'r farn bod perthynas rhiant, taid/nain, ŵyr/wyres, gwr/gwraig, plentyn, brawd neu chwaer yn creu cysylltiad rhy agos i ganiatáu gollyngiad o safbwynt ysgolion penodol. Bydd angen i aelodau sydd â buddiant, ddatgan hynny ar gychwyn y cyfarfod gan nodi pa ysgol sy'n destun y buddiant ac a oes ganddynt ollyngiad neu beidio.

(i) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn yr eitem "Ad-drefnu Ysgolion Dalgylch y Gader, Dolgellau", oherwydd y rhesymau a nodir:

- Y Cynghorydd Evie M. Jones oherwydd bod ŵyr yn ddisgybl yn Ysgol y Gader, Dolgellau a wyrion yn ddisgyblion yn Ysgol y Clogau, Bontddu;
- Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn oherwydd ei fod yn aelod o Fwrdd Llywodraethol Ysgol y Gader ac Ysgol Gynradd Dolgellau a bod ei fab yn ddisgybl yn Ysgol Gynradd Dolgellau.

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu, a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr ysgol(ion) dan sylw.

(ii) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn yr eitem "Ad-drefnu Ysgolion Dalgylch y Gader, Dolgellau", oherwydd y rhesymau a nodir:

- Y Cynghorydd Gethin G. Williams oherwydd ei fod yn aelod o Fwrdd Llywodraethol Ysgol Machreth, Llanfachreth ac yn riant i blant yn Ysgol y Clogau, Bontddu;
- Y Cynghorydd Linda Morgan oherwydd ei bod yn aelod o Fwrdd Llywodraethol Ysgol Gynradd a Babanod Dolgellau.

Roedd yr aelodau o'r farn nad oeddynt yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a chymerasant ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

(iii) Datganodd y Cynghorydd John Pughe Roberts fuddiant personol yn yr eitem "Ad-drefnu Ysgolion Dalgylch y Gader, Dolgellau" oherwydd ei

fod yn aelod o Fwrdd Llywodraethol Ysgol Dinas Mawddwy a bod ei chwaer â phlentyn yn yr ysgol honno. 'Roedd gan yr aelod ollyngiad gan y Pwyllgor Safonau a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(i) Cydymdeimlwyd â theulu'r Cynghorydd Dai Rees Jones a fu farw'n sydyn diwedd mis Mai.

Talwyd teyrnged iddo gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Dyfed Edwards

Yna, cydymdeimlwyd â phawb arall oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar, a gwahoddwyd y cyfarfod i sefyll fel arwydd o barch a chydymdeimlad.

(ii) Croesawyd y Cynghorydd Dafydd Meurig, aelod tros ward Arllechwedd i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor.

(iii) Anfonwyd cofion at y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn dilyn ei lawdriniaeth diweddar. Nodwyd i'r aelod anfon neges at y Cyngor yn diolch i aelodau a swyddogion am eu dymuniadau gorau a'r cardiau gwellhad buan. Mae'n gwella'n dyddiol ac yn gobeithio ailafael yn yr awenau yn yr hydref.

(iv) Diolchodd y Cynghorydd Guto Rhys Tomos i bawb a'i gefnogodd ar y daith feiciau noddedig yn ddiweddar. Llwyddwyd i godi £2,600 tuag at Ymchwil Cancr Elupus.

**5. CWESTIYNAU**

Cwestiwn gan y Cynghorydd John W. Meredith

**"Faint o weithiau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Cyngor Sir wedi defnyddio'r hawl i wrando ar neu ddarllen gohebiaeth breifat? – cyfeiriaf at y "Regulation of Investigating Powers Act 2000".**

**Ateb gan y Cynghorydd Stephen Churchman, Uwch Arweinydd Adnoddau**

"Diolch i'r aelod am ei gwestiwn ond nid oes gan y Cyngor bwerau drwy Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 i wrando ar neu ddarllen gohebiaeth breifat. Fodd bynnag, rheolir defnydd o arsyllu cudd neu ffynhonnell ddynol ddirgel o gudd-wybodaeth ("achwynydd") gan y Cyngor gan y Ddeddf. Mae hawl hefyd drwy'r ddeddfwriaeth i gael gwybodaeth ynglyn â data cyfathrebu. Rhaid adrodd yn flynyddol i Swyddfa'r Comisiynydd Ymchwilio ar ddefnydd y pwerau yma. Ni ddatgelwyd unrhyw ddefnydd a gofnodwyd o'r pwerau yma yn adroddiadau 2010/11 ac hyd yn hyn ni fu unrhyw ddefnydd a gofnodwyd o'r pwerau ers eu cyflwyno".

## 6. AD-DREFNU YSGOLION YN NALGYLCH Y GADER

(a) Cyflwynwyd adroddiad Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol, i geisio cymeradwyaeth y Cyngor i ad-drefnu ysgolion dalgylch y Gader ac ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol ar y cynigion perthnasol.

(b) Cafwyd cyflwyniad byr gan y Cynghorydd Liz Saville Roberts, Arweinydd Portffolio Addysg.

Hysbysodd y rhagwelir erbyn 2013 y bydd 323 o blant yn Ysgol y Gader a 142 o blant yn Ysgol Gynradd Dolgellau. 'Roedd yn bosibl rhannu'r ysgolion gwledig i ddwy ran sef y gogledd-orllewin a fyddai'n cynnwys ysgolion Y Clogau, Bontddu (26 o blant); Ysgol Ganllwyd (19 o blant); Ysgol Llanelltyd (36 o blant) ac Ysgol Y Friog (25 o blant) a'r de-ddwyrain a fyddai'n cynnwys Ysgol Llanfachreth (18 o blant); Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain (15 o blant); Ysgol Brithdir (40 o blant) ac Ysgol Dinas Mawddwy (23 o blant). Yn ei gyfanrwydd o ran ysgolion cynradd rhagwelir 344 o blant erbyn 2013.

Cyfeiriodd at nodweddion daearyddol yr ardal. 'Roedd rhai ysgolion yn bell iawn oddi wrth ei gilydd a bod llawer o blant yr ardal yn teithio oddeutu hanner awr i'r ysgol ar hyn o bryd. Mae bron i draean o'r plant yn y dalgylch hon yn mynychu ysgolion tu allan i'r cymunedau lle maent yn byw.

Nododd bod nifereodd plant wedi gostwng 20% ers 1975, bod 36% o lefydd gweigion yn ysgolion yr ardal ac y disgwylir i'r niferoedd leihau ymhellach yn ystod y blynyddoedd nesaf. Rhagwelir y bydd pob un o'r wyth ysgol gynradd wledig yr ardal yn y rhwyd diogelwch ymhen dwy flynedd. Tynnodd sylw hefyd at y sefyllfa argyfyngus o ran sefyllfa penaethiaid yn y de-ddwyrain, gyda Phennaeth Ysgol Llanfachreth wedi derbyn swydd Pennaeth Ysgol Llanelltyd a Phennaeth Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain yn ymddeol ar ddiwedd tymor yr haf eleni.

Manylodd ar y ddau fodel oedd gerbron sef:-
a) Sefydlu Ysgol Ardal yn ochr ddwyreiniol dalgylch y Gader ar ddau safle, gydag un safle i'r ysgol ar leoliad presennol Ysgol Dinas Mawddwy a'r safle arall naill ai ar leoliad presennol Ysgol Brithdir neu Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain. Byddai'r model yn golygu y byddai'r naill leoliad neu'r llall yn cau fel ysgol ynghyd â chau Ysgol Llanfachreth gyda'r ddarpariaeth addysg yn cael ei gynnig yn yr Ysgol Ardal.
b) Cau Ysgol Gynradd Dolgellau ac Ysgol Uwchradd y Gader gan sefydlu Cymuned Ddysgu Gydol Oes Aml-Safle ar gyfer disgyblion 3 i 16 oed.
Parheir i weithio er sefydlu'r statws cyfreithiol mwyaf priodol i'r Gymuned Ddysgu Gydol Oes yn Nolgellau. Nododd bod y modelau hyn wedi derbyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar 23 Mehefin a Bwrdd y Cyngor ar 5 Gorffennaf 2011.

O safbwynt ochr orllewinol y dalgylch sef Ysgolion Ganllwyd, Llanelltyd, Clogau a'r Friog, argymhellir oedi'r drafodaeth ar hyn o bryd ac y

byddai'n cael blaenoriaeth o ran y broses ad-drefnu ysgolion yn y cylch nesaf o ymgynghori.

Cynigiodd yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad oddigerth diwygio argymhelliad 10.3 i ddarllen "Argymell dirprwyo i Fwrdd y Cyngor gan gynnwys hefyd ymgynghori â'r aelod/au lleol, y penderfyniad ar leoliad yr Ysgol Ardal arfaethedig ar gyfer ymgynghori, unai ar safle presennol Ysgol Brithdir neu ar safle presennol Ieuan Gwynedd".

(c) Nododd aelod lleol tros ward Brithdir a Llanfachreth bod y broses ad-drefnu ysgolion yn y rhan hon o Wynedd wedi bod yn un hir a chaled a bod consensws bod angen ad-drefnu addysg yn y rhan hon o'r dalgylch. Eglurodd y byddai'r gymuned yn dymuno cael Ysgol Ardal newydd ar safle annibynnol, ond 'roeddynt yn derbyn nad oedd hynny'n bosibl yn yr hinsawdd economaidd presennol. Nid oedd dymuniad i weld ysgolion yn cau, ond 'roedd rhieni'r cylch yn pryderu ynglyn â'r lleihad yn nifer y disgyblion a bod y sefyllfa'n anghynaladwy i'r dyfodol. Erbyn heddiw, saith o blant sy'n byw yn ardal Machreth a bod tri ohonynt yn byw yn agosach at ysgolion eraill. Nododd ymhellach bod y cynnig gerbron yn adlewyrchiad teg o'r hyn a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Panel Adolygu Dalgylch, a phwysodd am symud ymlaen yn ddi-oed oherwydd sefyllfa fregus iawn rhai o'r ysgolion.

(ch) Adroddodd aelod lleol ward Corris a Mawddwy bod y gymuned yn derbyn bod y sefyllfa bresennol yng anghynaladwy, a bod rhaid gweithredu er mwyn diogelu addysg wledig yn yr ardal. Fodd bynnag, pwysodd am gytuno ar safle cyn gynted â phosibl, a hynny mewn ymgynghoriad â'r aelod/au lleol perthnasol. 'Roedd o'r farn mai ym Mrithdir yr oedd y safle mwyaf addas ar gyfer lleoli'r ail Ysgol Ardal gan ei fod yn ganolog i'r ardal. Mewn perthynas ag Ysgol Dinas Mawddwy, nododd bod yr ysgol hon eisoes yn Ysgol Ardal yn dilyn cau Ysgolion Llanymawddwy, Aberangell a Dinas Mawddwy gan godi ysgol newydd yn Ninas Mawddwy. Nododd ei bod yn ardal eang iawn gyda rhai plant yn gorfod teithio hyd at chwe milltir i'r ysgol a bod Ysgol Brithdir oddeutu wyth milltir o Dinas Mawddwy. Mae rhieni, llywodraethwyr a Chyngor Cymuned Mawddwy yn sylweddoli nad yw'r sefyllfa bresennol yn gynaladwy ac yn fodlon cydweithio a rhannu adnoddau gydag ysgol arall.

(d) Cyfeiriodd aelod at adroddiadau Dylan Bryn Roberts ar asesiad effaith ieithyddol, cymunedol ac economaidd ac yn benodol yr effaith ieithyddol gan dynnu sylw at un cymal yn yr adroddiad sef "*Mae'r ardrawiad hwn yn cadarnhau y byddai sefydlu Ysgol Ardal mewn dau safle yn cyfateb i + 6 cadarnhaol ond y byddai Ysgol Gydol Oes ar ddau safle'n Nolgellau yn cyfateb i – 8. Diau felly y byddai'r Ysgol Gydol Oes yn arwain at greu sefydliad mwyaf y dalgylch, sef 512 o ddisgyblion, fyddai'n cynyddu a chyflymu graddfa dirywiad ieithyddol y dalgylch o ran arwain at weld mwy o ddisgyblion o gartrefi Cymraeg yn dewis dilyn pynciau TGAU drwy'r Saesneg a pholareiddio patrwm iaith gymdeithasol fwy-fwy i gyfeiriad y Saesneg a fyddai yn ei dro yn llesteirio llawer o'r gwaith da a wnaed gan fwyafrif ysgolion cynradd y cylch*". 'Roedd yr

aelod o'r farn bod y pwynt hwn yn eithriadol o bwysig a gofynnodd am gadarnhad gan y Pennaeth Addysg o'r amserlen parhed sefydlu'r cynllun iaith penodol a awgrymir gan Dylan Bryn Roberts, beth fydd natur y cynllun hwnnw a phwy fyddai'n gyfrifol am ei greu.

Mewn ymateb, cyfeiriodd y Pennaeth Addysg at eitem benodol ar raglen y Cyngor heddiw sef Cynllun Addysg Gymreag Gwynedd ac yn gysylltiedig â'r cynllun hwnnw mae Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd. Nododd bod y mater a godwyd gan yr aelod yn gynwysedig yn y Cynllun Addysg a drafodir ar ddiwedd y cyfarfod.

(dd) Datganodd aelod bryder am y cyhoeddiad a wnaed gan y Cynulliad y diwrnod blaenorol parthed y diffyg arian i adeiladu ysgolion newydd.

Mewn ymateb, hysbysodd y Prif Weithredwr na fydd y cyhoeddiad hwn yn effeithio ar ad-drefnu Ysgolion yn Nalgylch y Gader oherwydd nad oedd bwriad i gael grant gan y Cynulliad gan y byddai'r gwaith yn cael ei ariannu o ffynonellau mewnol y Cyngor yn unol â strategaeth ariannol a strategaeth rheoli asedau'r Cyngor. Cyflwynir adroddiad ar hynny i ystyriaeth cyfarfod nesaf Bwrdd y Cyngor.

(e) Nododd aelod oedd yn awyddus i gadw ysgolion ar agor pan oedd hynny'n bosibl, ei fod yn parchu barn y gymuned leol, ac yn fodlon cefnogi'r cynigion oedd gerbron. Fodd bynnag, mynegodd gonsyrn ynglyn â gallu'r Cyngor i wireddu'r cynigion heb wybod bod yr arian ar gael ac ynglyn â maint anferthol ardal ddwyreiniol y dalgylch.

Ymhellach, eglurodd ei fod yn gwrthwynebu'r argymhelliad i ddirprwyo'r penderfyniad ar leoliad yr Ysgol Ardal arfaethedig i Fwrdd y Cyngor, gan bwysleisio mai cyfrifoldeb y Cyngor llawn oedd trefniadaeth ysgolion y sir.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Arweinydd Portffolio Addysg iddi eisoes awgrymu y dylid diwygio argymhelliad 10.3 o'r adroddiad i gynnwys trafodaeth gyda'r aelod/au lleol ar leoliad yr Ysgol Ardal arfaethedig.

(f) Pwysleisiodd Arweinydd y Cyngor bod angen gweithredu ar frys er mwyn diogelu addysg wledig a'i fod yn pwyso ar yr aelodau i gefnogi'r cynigion.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Yn ddarostyngedig i benderfyniad ar leoliad arfaethedig yr ysgol, ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 28 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn ystod tymor Hydref 2011 ar y bwriad o sefydlu Ysgol Gymuned Ardal aml-safle 3-11 oed gyda un safle'r ysgol ar leoliad presennol Ysgol Dinas Mawddwy a'r safle arall unai ar leoliad presennol Ysgol Brithdir neu Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain i agor 1 Medi 2013.**

**(ii) Er sefydlu'r Ysgol Ardal arfaethedig, ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 29 Deddf Safonau a Fframwaith**

**Ysgolion 1998 yn ystod tymor Hydref 2011 ar gau Ysgolion Llanfachreth, Dinas Mawddwy, Brithdir ac Ysgol Ieuan Gwynedd ar 31 Awst 2013.**

**(iii) Dirprwyo i Fwrdd y Cyngor gan gynnwys hefyd ymgynghori â'r aelod/au lleol, y penderfyniad ar leoliad yr Ysgol Ardal arfaethedig ar gyfer ymgynghori, unai ar safle presennol Ysgol Brithdir neu ar safle presennol Ieuan Gwynedd.**

**(iv) Cefnogi'r bwriad o ymgynghori ar yr egwyddor o sefydlu Cymuned Ddysgu (Ysgol) Gydol Oes aml-safle 3 – 16 oed yn nhref Dolgellau i agor ar 1 Medi 2013.**

**(v) Dirprwyo'r penderfyniad ar statws cyfreithiol y Gymuned (Ysgol) Ddysgu Gydol Oes 3 – 16 oed arfaethedig i Fwrdd y Cyngor er mwyn caniatau ymgymryd â gwaith pellach gan gynnwys ystyried yr opsiynau o gau ac ail agor yr ysgolion neu greu Ysgol Ffederal ynghyd â sefydlu'r drefn ymgynghori statudol briodol ar gyfer symud y broses ymlaen.**

**7. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol i ddyraniad seddau a chadeiryddiaethau/is-gadeiryddiaethau pwyllgorau yn sgil newid yng nghydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

Adroddwyd gan y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol bod cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor wedi newid oherwydd –
a) Derbyniwyd ymddiswyddiad y Cynghorydd Dylan Edwards o Grŵp Plaid Cymru a datganodd ei fwriad i fod yn aelod unigol a pheidio ymuno ag unrhyw grŵp arall.
b) Marwolaeth y Cynghorydd Dai Rees Jones diwedd mis Mai.
c) Y cynhaliwyd is-etholiad yn Ward Arllechwedd ym Mehefin 2011 pryd yr etholwyd y Cynghorydd Dafydd Meurig, aelod o Grŵp Plaid Cymru, ar y Cyngor.
ch) Y derbyniwyd, ar 1 Gorffennaf 2011, ymddiswyddiad y Cynghorydd Richard Lloyd Jones, aelod Ward Diffwys a Maenofferen, Blaenau Ffestiniog.

Eglurwyd, bod angen i'r Cyngor gymryd i ystyriaeth y newid i'r cydbwysedd rhwng y grwpiau gwleidyddol wrth ddyrannu seddau ar bwyllgorau'r Cyngor yn dilyn i un aelod benderfynu bod yn aelod unigol a bod gan y grwpiau Democratiaid Rhyddfrydol, Llais Gwynedd ac Annibynnol un aelod yn llai nag o'r blaen.

Trafodwyd y mater gan y Grŵp Busnes ac 'roedd o'r farn, er tegwch i'r Aelod Unigol, y dylid gwneud cyn lleied â phosibl o newidiadau i'r seddau ar y pwyllgorau er cynnig dwy sedd ar y pwyllgorau i'r Aelod Unigol, a chyflwyno argymhellion pellach i Gyngor mis Hydref 2011. Golygai hyn bod y Grŵp Annibynnol yn rhoddi un sedd i'r Aelod Unigol ar y Pwyllgor Archwilio ac ar y Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig a bod y Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol yn rhoddi sedd ar y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc i'r Grŵp Annibynnol a sedd ar y Pwyllgor Trwyddedu Canolog i Grŵp Plaid Cymru.

Nododd hefyd, gan nad yw'r argymhelliad yn llwyr adlewyrchu'r cydbwysedd gwleidyddol fel y mae ar hyn o bryd, bydd rhaid i'r aelodau bleidleisio'n unfrydol tros y cynnig.

Yn ogystal, ers mis Mai 2011 mae'r Cyngor wedi profi trafferthion wrth geisio ethol is-gadeiryddiaethau'r Pwyllgor Craffu Amgylchedd a Phwyllgor Ardal Meirionnydd ac o'r herwydd gofynnwyd i'r Grŵp Busnes roddi sylw i'r mater. Nodwyd sawl opsiwn posibl ar gyfer yr is-gadeiryddiaethau a fyddai'n effeithio ar grwpiau'r Democratiaid Rhyddfrydol, Plaid Cymru a Llais Gwynedd ond heb newid y cydbwysedd gwleidyddol, megis cadw is-gadair Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn wag, neu bod Grŵp Llais Gwynedd yn cymryd is-gadair Pwyllgor Craffu Amgylchedd a Grŵp Plaid Cymru yn cymryd is-gadair Pwyllgor Ardal Meirionnydd tra bod y Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol yn cymryd is-gadair y Pwyllgor Adnoddau Dynol.

Adroddodd Arweinydd y Cyngor iddo gael trafodaeth gydag Arweinydd Grŵp Llais Gwynedd a bod cynnig y dylai Cadair y Pwyllgor Craffu Amgylchedd gael ei ddyrannu i Grŵp Plaid Cymru a'r Is-gadair i Grŵp Llais Gwynedd.

Mewn perthynas â'r Pwyllgor Cynllunio, mae sedd wag ar y pwyllgor hwnnw gan bod un aelod o Grŵp Plaid Cymru o Ardal Dwyfor, wedi derbyn sedd ar Fwrdd y Cyngor. Ym Mai 2010, penderfynodd y Cyngor ethol aelodau ar y Pwyllgor Cynllunio yn unol â chydbwysedd gwleidyddol y Cyngor ac ar y cydbwysedd ardal. Golygai hyn mai sedd i aelod o Ardal Dwyfor sy'n wag, ond derbyniwyd mynegiant o ddiddordeb gan aelod o Grŵp Plaid Cymru o Ardal Arfon mewn bod yn aelod ar y pwyllgor ac o'r herwydd byddai'n cael effaith ar y cydbwysedd rhwng yr ardaloedd ar y pwyllgor.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Nodi bod Cyfansoddiad presennol y Cyngor fel a ganlyn:-**

| | |
|---|---|
| **Plaid Cymru** | **36** |
| **Annibynnol** | **16** |
| **Llais Gwynedd** | **12** |
| **Democratiaid Rhyddfrydol** | **4** |
| **Llafur** | **4** |
| **Aelod Unigol** | **1** |
| **Sedd Wag** | **2** |

**(ii) Newid dyraniad y seddau ar bwyllgorau'r Cyngor fel bod y Grŵp Annibynnol yn rhoddi un sedd i'r Aelod Unigol ar y Pwyllgor Archwilio ac ar y Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig, a bod y Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol yn rhoddi sedd ar y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc i'r Grŵp Annibynnol a sedd ar y Pwyllgor Trwyddedu Canolog i Grŵp Plaid Cymru.**

**(iii) Dyrannu Cadair y Pwyllgor Craffu Amgylchedd i Grŵp Plaid Cymru a'r is-gadair i Grŵp Llais Gwynedd.**

**(iv) Dileu'r angen am gydbwysedd ardal ar y Pwyllgor Cynllunio er caniatau i aelod o Ardal Arfon gael ei ethol ar y Pwyllgor Cynllunio.**

**8. CYDWEITHIO A DYFODOL GWASANAETHAU CYHOEDDUS**

(a) Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr mai pwrpas y cyflwyniad yw -
i) I godi ymwybyddiaeth parthed yr agenda cenedlaethol sy'n datblygu'n gyflym.
ii) I baratoi aelodau ar gyfer adroddiadau cydweithio sydd i'w cyflwyno yng nghylch pwyllgorau'r Cyngor yn ystod yr Hydref.
iii) I atgoffa aelodau bod y Cyngor eisoes wedi arwyddo'r weledigaeth ddiwygiedig y llynedd ar gyfer cydweithio yng Ngogledd Cymru.

Mewn perthynas â'r sefyllfa genedlaethol, cyfeiriodd at rai adroddiadau a gyflwynwyd yn ystod y misoedd diwethaf megis Adroddiad Simpson ynglyn ag amrywiaeth o wasanaethau sef cynllunio, safonau masnach, priffyrdd , gwasanaethau cymdeithasol ac addysg lle mae'r argymhellion ynglyn â pha fath o weithgareddau ddylai ddigwydd yn rhanbarthol neu'n genedlaethol. Tynnodd sylw at gynigion eithaf radical ynglyn â'r ffordd y disgwylir i gynghorau weithredu i'r dyfodol. Cyfeiriodd at adroddiad Vivian Thomas ar Strwythur y Gwasanaethau Addysg yng Nghymru sy'n son am gydweithio rhanbarthol, yn enwedig o safbwynt yr agwedd gwella ysgolion. Nododd bod y Cyngor hwn a Chyngor Sir Ynys Môn eisoes yn cydweithio yn y maes hwn. Cyfeiriodd hefyd at yr adroddiad a baratowyd gan Gwenda Thomas, Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad, ar Wasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru – Fframwaith Gweithredu sy'n son am gydweithio'n rhanbarthol ar gyfer cyflawni rhai agweddau o wasanaethau cymdeithasol. Tynnodd sylw at y datganiadau a wnaed gan weinidogion yn y Cynulliad megis Leighton Andrews, Gwenda Thomas a Carl Sargeant.

O safbwynt y gwerth cyhoeddus, pwyslesiodd y pwysigrwydd o uchafu hyn am bob buddsoddiad a wneir. Nododd ar gyfer unrhyw faes penodol dylid bod yn glir am yr amcanion a gwneud y pethau iawn a dewis y gweithgareddau mwyaf effeithiol er mwyn cyflawni'r amcan, a gwneud y pethau iawn yn dda er perfformio'r gwaith yn economaidd ac yn effeithlon.

Nododd mai'r cam nesaf yn genedlaethol fydd cytuno cytundeb rhwng y Cynulliad a Llywodraeth Leol Cymru parthed pa feysydd y rhoddir addewid o gynnydd o safbwynt cydweithio. Disgwylir y ceir manylion yn ystod yr wythnosau nesaf gyda'r cytundeb terfynol yn cael ei arwyddo yn yr Hydref.

Rhoddodd fanylion am y pedwar Bwrdd Rhaglen Rhanbarthol sef Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Cefnogol a'r Amgylchedd. Nododd y bwriad i gyflwyno adroddiadau ar wella ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth a phartneriaethau.

Eglurodd parthed is-rhanbarthol, bod yna gydweithio'n mynd rhagddo rhwng y Cyngor hwn a Chyngor Sir Ynys Môn yn y maes Cynllunio a thrafodaethau hefyd yn y maes Gwarchod y Cyhoedd. Nododd ei fod ynghyd ag Arweinydd y Cyngor yn gobeithio cyfarfod y comisiynwyr a'r

Prif Weithredwr tros dro yng Nghyngor Sir Ynys Môn yn ystod yr wythnosau nesaf i drafod rhannu mwy o wasanaethau.

Tynnodd sylw at y risgiau ynghlwm â chydweithio o safbwynt yr iaith, comisiynu, swyddi, llywodraethu a'r gwrthwynebiad i newid.

(b) Mewn perthynas â'r risg ieithyddol, nododd aelod bod hwn yn un o'r problemau mwyaf a wynebai'r Cyngor a gofynnodd a ddylai'r Cyngor gydweithio gyda chynghorau â phoblogaeth a proffil iaith tebyg i Wynedd.

Mewn ymateb, hysbysodd y Prif Weithredwr bod y Cabinet yn ystod y dyddiau diwethaf wedi son am gydweithio ar sail ffiniau rhanbarthol sy'n cyd-fynd ag Awdurdod yr Heddlu a'r Awdurdod Iechyd. Nododd bod Cynghorau Blaenau Gwent a Chaerffili wedi penderfynu uno gwasanaethau cymdeithasol. Byddai'n bosibl i'r cyngor hwn ddilyn yr un patrwm drwy gydweithio gyda chynghorau eraill, megis Cyngor Sir Ynys Môn a.y.

(c) Nododd aelod bod cydweithio yn syniad da, ond cyn cydweithio â chynghorau eraill 'roedd o'r farn bod angen gwell cydweithio rhwng rhai adrannau o fewn y Cyngor hwn megis yr Adran Cynllunio a'r Adran Economi a Chymuned. Tynnodd sylw hefyd at y pwysigrwydd o gadw swyddi rheng-flaen.

Mewn ymateb, cydnabu'r Prif Weithredwr bod angen gwell cydweithio mewnol mewn rhai adrannau yn y Cyngor. Parthed y sylw ynglyn â chadw swyddi rheng-flaen, fe brofwyd gyda uwch reolwyr bod y Cyngor yn gystadleuol iawn o safbwynt nifer y swyddi hynny o ran poblogaeth.

(ch) Cyfeiriodd aelod at gontractwyr lleol a'r gallu iddynt ennill contractau ar draws Gogledd Cymru ac y dylid sicrhau drwy gydweithio nad yw contractwyr lleol yn colli allan ar gontractau.

(d) Nododd Arweinydd y Cyngor y rhagwelai y byddai'r agenda cydweithio'n dod yn fwy fwy pwysig tros y blynyddoedd nesaf am nifer o resymau, rhai yn resymau ariannol ac hefyd i sicrhau'r is-adeiledd cywir i barhau i wella gwasanaethau. 'Roedd o'r farn bod gan y Cyngor enw da yn rhanbarthol a chenedlaethol ac yn barod i gydweithio a chyfrannu syniadau at yr agenda hwn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

(a) Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ar berfformiad ac effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn 2010/11, ac yn amlinellu'r

materion y cytunwyd fel y rhai pwysicaf i roddi sylw iddynt yn ystod y flwyddyn i ddod.

(b) Adroddwyd gan y Pennaeth bod yna lawer o waith i'w gyflawni mewn cyfnod byr iawn a nododd mai teitl yr adroddiad eleni yw "Cyflawni mwy, yn well ac yn gynt". Cydnabu bod y flwyddyn wedi bod yn llwyddiannus ond yn anodd. Cyfeiriodd at farwolaeth sydyn y diweddar Gynghorydd Dai Rees Jones a'i arweiniad a'i gefnogaeth difino i'r gwasanaeth yn ystod ei gyfnod fel Arweinydd Portffolio.

(c) Manylwyd ar y prif lwyddiannau.

Adroddwyd i'r cyfnod Adolygiad ar y Cyd ddod i ben yn ffurfiol yng Ngorffennaf 2010.

Derbyniwyd adroddiadau ymarfer canmoliaethus yn y meysydd plant anabl a phlant gwael; maethu a mabwysiadu ac asesu a derbyn gofal yn y maes plant. Yn ogystal derbyniwyd adborth cadarnhaol yn y maes POVA sef diogelwch trefniadau i bobl hŷn lle y gweithredwyd yr argymhellion ac ar y sail hynny bod ymarfer yr adran o ran cadw plant ac oedolion yn ddiogel yn eu lle.

Nododd bod safon ymarfer wedi gwella o ran ansawdd a perfformiad yn enwedig ym maes plant. Ni chynyddwyd capasiti staff. Derbyniodd nifer o staff yr adran gan gynnwys swyddogion yr Adran Darparu a Hamdden ganmoliaeth a gwobrau mewn seremoni a drefnwyd gan y Cyngor eleni. Yn ogystal, derbyniodd y Cyngor gydnabyddiaeth yn y maes oedolion gan y Cyngor Gofal ynglyn â'r ymarfer yn y maes dementia a'r defnydd o berson canolog yn y maes hwnnw.

(ch) O ran rheoli adnoddau a chomisiynu, eglurodd y Pennaeth yr adroddwyd y llynedd y byddai'n flwyddyn heriol. Parthed y cynnydd mewn gofynion ym maes plant, llwyddwyd i ddod o fewn 0.2% o'r cyllid. Cyfeiriodd at nifer o swyddi gwag rheolaeth ganol ym maes oedolion oherwydd salwch a hefyd trosiant o ran salwch yn y maes plant.

Nododd y llwyddwyd i gyfarch gorwariant hanesydol ym maes anabledd dysgu.

Llwyddwyd hefyd i wella'r ddarpariaeth gofal cartref. Cynyddwyd yr economi yn ne'r sir, y darparwyr annibynnol sy'n gweithredu yno a hefyd lleihawyd cost y ddarpariaeth. Nododd bod cyflwyno'r drefn broceriaeth o fewn yr adran, nid yn unig wedi ychwanegu gwerth o ran profiad defnyddwyr, ond hefyd wedi creu arbedion o tros £100,000 yn ystod y flwyddyn.

Eglurodd y llwyddwyd hefyd i leihau'r oedi wrth leoli o'r ysbyty, yn bennaf, oherwydd y gallu i aildrefnu ac ailgomisiynu gofal preswyl a sicrhau cynnydd yn y ddarpariaeth dementia.

(d) Cyfeiriwyd at y prif heriau oedd yn wynebu'r gwasanaethau.

Eglurodd bod y patrwm gofyn yn tystiolaethu'r angen i newid yn gynt. Rhaid cynyddu'r cyflymder o ran ailgomisiynu'r ddarpariaeth oedolion a plant o fewn cyd-destun y sector gyfan. Nododd bod y sector gofal yn genedlaethol yng Nghymru yn cyflogi tros 70,000 o bobl mewn llywodraeth leol yn unig ac mae gwariant yn y maes gofal yn genedlaethol tros £1.5 biliwn.

Nododd bod angen gyrru ac herio ansawdd. Mae cael gweithlu gyda hyder unigol a phroffesiynol yn allweddol i gyflawni gwasanaethau.

Cyfeiriodd at y ffaith bod nifer o'r gwasanaethau'n barod yn cael eu cynllunio a'u darparu ar y cyd. Nododd bod y gwasanaeth mabwysiadu erbyn hyn yn cael ei ddarparu ar sail rhanbarthol. Ceisir ymgymryd â'r newidiadau allweddol o fewn cyd-destun arbedion ariannol.

(dd) Manylwyd ar y prif flaenoriaethau ar gyfer 2011/12 sef gweithredu ar gynlluniau comisiynu gan gyfeirio'n benodol at faes preswyl pobl hŷn, anabledd dysgu a phlant a phobl ifanc; cynyddu ystod darpariaeth gofal cymunedol ac effeithlonrwydd ariannol trwy'r gwaith partneriaeth ar draws y sector gofal a'r rhaglen ranbarthol; parhau i wella ar fesuriadau perfformiad a thystiolaeth ansawdd darpariaeth ar draws y gwasanaeth.

Wrth gloi, diolchodd yn ddiffuant i weithlu ymroddgar a chydwybodol y gwasanaethau cymdeithasol.

(e) Diolchodd yr Arweinydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Pennaeth am yr adroddiad ac i'r holl swyddogion o fewn y gwasanaeth oedd ynghlwm â'r adroddiad.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gyda diolch.**

## 10. CYNLLUN ADDYSG GYMRAEG GWYNEDD

(a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Addysg a gyfeiriai at y ffaith y cyflwynwyd y drafft terfynol o'r cynllun i sylw Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac fe'i cymeradwywyd ganddynt ar 30 Mehefin 2011 – hyn yn dilyn cyfnod o drafod ac ymgynghori manwl ar y cynllun drafft. 'Roedd y Bwrdd yn croesawu'r targedau yn y cynllun ac yn edrych ymlaen i barhau i gydweithio gyda'r Awdurdod yn ystod y cyfnod o weithredu'r targedau a monitro cynnydd hyd nes y deuai trefniadau newydd y Cynulliad ar gyfer Cynlluniau Strategol y Gymraeg i rym. Nododd y byddai'r newid hwn yn dod i awdurdodau ac ysgolion yn ystod y flwyddyn addysgol nesaf. Rhydd hynny gyfle i ddod â threfniadau addysg Gymraeg a strategaeth addysg Gymraeg i brif lif pob trafodaeth ar addysg.

Cyferiodd at nôd ac amcanion y Cynllun Addysg Gymraeg ac yn benodol at y cymalau canlynol:-

a) Er mai nôd cyffredinol y Polisi Iaith yw dwyieithrwydd, fe bwysir y fantol o blaid y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar er mwyn gosod sylfeini cadarn ar gyfer datblygiad pellach. Yn y cyfnodau allweddol eraill, disgwylir i ysgolion gynllunio'n fwriadus er mwyn datblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg.

b) Cydwedda hyn yn dda gyda phrif nôd y Cynllun Addysg Gymraeg sef sicrhau datblygiad y Gymraeg fel pwnc a chyfrwng dysgu o oedran cyn-ysgol ymlaen.

c) Yn dilyn adolygiad trylwyr o'r cynllun cyfredol ac ar ôl trafodaeth fewnol gyda chyfranddeiliaid a phartneriaid, cytunwyd y byddai'r Cynllun Addysg Gymraeg diwygiedig yn canolbwyntio ar yr agweddau canlynol:-

- Gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg yn ystod addysg feithrin a'r blynyddoedd cynnar.
- Sicrhau dilyniant yn y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu o CA2 i CA3.
- Cryfhau'r gweithredu yn yr ardaloedd/sefydliadau/ysgolion lle mae data yn dangos yr angen.
- Cryfhau'r defnydd o'r carfanau iaith fel offeryn cynllunio dilyniant mewn ysgolion uwchradd.
- Cyflwyno Bagloriaeth Cymru ar lefelau 1,2 a 3 yn yr ysgolion uwchradd.

(b) Cyflwynwyd copi o Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd.

Nododd y Pennaeth Addysg y datblygwyd y ddogfen yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mewn ymgynghoriad ag aelodau o weithgor penodol a fu'n edrych ar ddefnydd cymdeithasol plant Gwynedd o'r Gymraeg. Cyfeiriodd at Atodiad 12 o'r Cynllun Addysg Gymraeg sy'n rhoddi manylion am gynigion i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach ac yn benodol y cyfleoedd anffurfiol i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cymdeithasol fel bod modd iddynt ddatblygu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg a meithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith tu hwnt i sefyllfaoedd addysg ffurfiol. Nododd ymhellach i'r siarter gael cymeradwyaeth gan y penaethiaid uwchradd a chynradd er gosod cyfeiriad gwaith clir ar eu cyfer. Rhoddodd fanylion am saith nôd y siarter sef:-

- Gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen
- Sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni eu potensial yn y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng addysgol
- Gweithredu'r Cwricwlwm Cymreig
- Meithrin ymwybyddiaeth a hunaniaith ddiwylliannol a threftadaeth Cymru ymysg disgyblion yr ysgol
- Sicrhau bod pob agwedd o fywyd bob dydd yr ysgol a'i chymuned yn Gymraeg a Chymreig
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithgareddau allgyrsiol
- Cefnogi staff i ddatblygu eu hyder a'u sgiliau yn y Gymraeg yn y gweithle

**PENDERFYNWYD**
**a) Derbyn y Cynllun Addysg Gymraeg fel arwydd o ymrwymiad i weld yr hyn a nodir yn y ddogfen yn cael ei gyflawni ac er mwyn i bawb gyfrannu at y trafodaethau a'r gweithredu ymhob un o'r sefydliadau addysgol sy'n gyfrifoldeb i'r Cyngor.**
**b) Derbyn Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd fel dogfen arwyddocaol i osod cyfeiriad i'r gwaith o ddatblygu defnydd cymdeithasol plant Gwynedd o'r Gymraeg.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 3.45 p.m.

____________________

**CADEIRYDD**